

Gofalu am y geg ar ôl biopsi dan Anaestheteg Leol

1. **Peidiwch â rinsio'r geg am weddill y dydd** achos gall hyn achosi'r soced i ddechrau gwaedu.
2. **Peidiwch â brathu'r rhan o'r geg sy'n ddideimlad** a pheidiwch ag ysmegu nes bod y diffyg teimlad wedi diflannu.
3. **Gorffwyswch am weddill y diwrnod.** Yfwch dim ond diodydd di-alcoholig heb fod yn rhy boeth. Bwytwch fwyd meddal.
4. I ddod ag unrhyw waedu i ben, pwyswch ar yr ardal gyda swabiau rhwylllog neu hances wedi'i phlygu am 10-15 munud.
5. **Mae cadw'r geg yn lân yn bwysig.** Cyn belled â bod y gwaed wedi stopio, gallwch ddechrau golchi'r geg gyda chegolch **y diwrnod canlynol**. Toddwch lond llwy de o halen cyffredin mewn gwydr o ddŵr cynnes a defnyddiwch fel cegolch. Gwnewch hyn ar ôl bwyta. **Cymrwch eich amser yn rinsio'r geg.** Defnyddiwch eich brws dannedd yn y manau o'r geg oddi wrth y man gafodd ei drin.
6. Gallwch ddisgwyl anesmwythder ac ychydig o chwyddo am ychydig o ddyddiau. Gallwch gymryd poenladdwr os oes angen.
7. Mae'r pwythi yn eich ceg yn toddi ar eu pennau'u hunain, ond gall fod angen hyd at 60 niwrnod cyn iddynt ddiflannu'n llwyr.
8. Bydd eich apwyntiad dilynol ymhen _____ diwrnod. **Trefnwch yr apwyntiad wrth y ddesg cyn gadael.**

Ffoniwch yr adran os oes gennych un o'r canlynol:

- Gwaedu parhaus
- Mwy o chwyddo neu boen
- Unrhyw beth arall sy'n peri pryder

Cofiwch, mae Tîm Llawdriniaeth y Genau a'r Geg yma i'ch helpu.

Os oes gennych chi unrhyw broblemau, ffoniwch y canlynol:- 01633 – 238372
neu'r Uwch-swyddog Iechyd y Genau a'r Geg y tu allan i oriau ar:- 01633 - 234234

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**